Datblygu Busnes
Business Development

Inspiring Learning,
Enriching Lives, Delivering Success

# Dylunio Peirianneg Ddiwydiannol (Mecanyddol) – BEng (Anrh) (Prentisiaeth Gradd) (Rhan Amser)

Cynlluniwyd y rhaglen hon i uwchsgilio gweithwyr presennol sydd wedi cwblhau astudiaeth lefel 2/3/4 yn flaenorol, naill ai fel prentisiaid neu fel arall. Mae gofynion mynediad arferol i'r rhaglenni hyn yn berthnasol. Cynigir y rhaglen hon mewn partneriaeth â Phrifysgol Wrecsam.

## Gofynion Mynediad

Mae meini prawf mynediad yn manylu ar gynnig nodweddiadol ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais yn unigol sy'n golygu y gallem wneud cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, proffil personol a phrofiad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglyn â'ch cynnig, cysylltwch â'n Tîm Derbyniadau.

Cynnig nodweddiadol: 2 Lefel A ar Radd E neu broffil PP / PPP o gymhwyster BTEC Lefel 3 a phum TGAU ar Radd C neu uwch, i gynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol). Mae cymhwysedd ar gyfer y rhaglen hon hefyd yn dibynnu ar ofynion ychwanegol gan gynnwys bod yn weithiwr cyflogedig mewn rôl addas yn y sector a gweithio yng Nghymru am o leiaf 51% o'r amser gwaith.

## Rhagolygon Gyrfa

Gallwch symud ymlaen i amrywiaeth o gyrsiau ôl-raddedig sy'n gysylltiedig â pheirianneg. Mae gan raddedigion ragolygon cyflogaeth mewn ystod eang o ddisgyblaethau peirianneg, er enghraifft: Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch, Dylunio a Datblygu Cynnyrch Peirianneg, Rheoli Gweithrediadau Peirianneg a Rheoli Prosiectau Peirianneg.

## Modiwlau'r cwrs

Gall modiwlau Blwyddyn 1 gynnwys:
– Technegau Peirianneg Dadansoddol
– Peirianneg Drydanol
– Peirianneg Fecanyddol
– Dysgu Seiliedig ar Waith
– Safonau Peirianneg, Rheoli Busnes a Gweithrediadau

business@nptcgroup.ac.uk | www.nptcgroup.ac.uk/business
nptc_business nptcbusiness business-nptcgroup

– Dylunio a Dylunio gyda Chymorth Cyfrifiadur (CAD)

Gall modiwlau Blwyddyn 2 gynnwys:
– Prosiect Diwydiannol
– Technegau Rheoli Dadansoddol
– Gweithgynhyrchu Modern, Cynaliadwyedd a Diwydiant
– Deunyddiau a Phrosesau
– Dylunio System Fecanyddol
– Peirianneg gyda Chymorth Cyfrifiadur

Gall modiwlau Blwyddyn 3 gynnwys:
– Prosiect
– Rheoli'r gweithlu ac Ymgysylltu ac Ymrwymiad
– Systemau Cynnal a Chadw a Diogelwch
– Modelu ac Efelychu Peirianneg
– Dylunio Cynnyrch

## Asesiad

Bydd y rhaglen yn cynnwys darlithoedd, gweithdy ymarferol a sesiynau tiwtorial. Bydd yn rhaid i chi gwblhau aseiniadau ysgrifenedig wrth i chi symud ymlaen trwy'r rhaglen. Mae gan nifer o fodiwlau arholiadau ac mae angen prosiect ymchwil.

### DULL ASTUDIO

PT

### LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 01639 648000

### HYD Y CWRS

3Y